



## YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE CYLCHLYTHYR NADOLIG 2018 CHRISTMAS NEWSLETTER



[www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe](http://www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe)  
[yggpontardawe@npt.school](mailto:yggpontardawe@npt.school)  
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

### Llongyfarchiadau / Congratulations

Diolch o galon i bawb am eu gwaith caled tuag at y gwasanaethau Nadolig yn ddiweddar, yn enwedig y disgyblion – arbennig.

*A big thank you to everyone for their preparations towards the Christmas concerts, especially the pupils – excellent.*

### Elusennau ac Apêl Madagascar 2018-19 / Charities and our Madagascar Appeal 2018 - 2019

Mae'r Apêl yn mynd o nerth i nerth yn ein hysgol ni! Diolch i bawb sydd wedi cefnogi'r Ffair Nadolig a'r Cyngherddau. Diolch hefyd am eich cyfraniadau Plant mewn Angen. Cyfanswm y casgliad oedd £296. Da iawn wir!

Lansiwyd Apêl Madagascar yn yr ysgol yn ystod Tymor yr Hydref eleni. Daeth Mr Robin Samuel i annerch y disgyblion mewn gwasanaeth. Clywsom hanes y cenhadon o Gymru a'u gwaith ym Madagascar. Pwrpas yr apêl yw codi arian at brosiectau ym Madagascar. Edrychwn ymlaen at chwyddo coffrau'r apêl yn 2019.

*The appeal is gaining strength in school. Thank you also to all that supported the Christmas Service and Concerts. Thank you to all who contributed to the Children in Need fund. The school total was £ 296. Well done!*

*Our appeal was launched in September with Mr Robin Samuel addressing the children in assembly. We heard about the work of the Welsh missionaries that travelled to Madagascar and their valuable work. We look forward to collecting as much as possible for the appeal.*

Yn dilyn asesiad allanol yr wythnos yma, llwyddodd yr ysgol i gynnal ei statws Baner Werdd Eco, y 4<sup>ydd</sup> Adnewyddiad Platinwm. Rhagorol a llongyfarchiadau mawr i ls bwyllgor Eco'r Cyngor Ysgol am eu gwaith caled. <https://www.keepwalestidy.cymru/gwobrau-eco-sgolion>

*Following an external assessment, the school has maintained its Eco Green Flag 4<sup>th</sup> Platinum Renewal. Try to spend a few minutes visiting the Keep Wales Tidy website for further information. Excellent and big congratulations to the School Council Eco Committee for their hard work.*

<https://www.keepwalestidy.cymru/eco-schools-awards>

### Apêl Diogelwch / Safety Appeal

**Clwb Brecwast** - Mae'n clwb brecwast yn agor am 8:00yb tan 8.30. Cofiwch mai cyfrifoldeb rhieni yw diogelwch y disgyblion hyd agorir drysau'r clwb am 8:00yb. Rydym yn pryderu am adroddiadau fod nifer yn cael eu gollwng mor gynnar â 7:50yb. Ni allwn chwaith dderbyn disgyblion i'r clwb ar ôl 8:20yb.

**Breakfast Club** - *Our breakfast club is open at 8.00 until 8.30am. Could you please remember that pupils must be supervised until the doors open at 8.00am. We are concerned at reports of pupils being dropped off as early as 7:50am. We also, cannot accept pupils to the club after 8:20am.*

**Diwedd Dydd** - I sicrhau fod disgyblion yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel, all rhieni sicrhau eu bod yn dod i waelod y grisiau pan welant eu plant yn disgwyl. Gofynnwn yn garedig i rieni osgoi dringo'r grisiau at staff. Os hoffech gael sgwrs â nhw, gadewch iddynt wybod ac fe wnânt ymuno a chwi ar waelod y grisiau.

**End of Day** - *To ensure that pupils are safely handed over, could parents ensure that they make their way to the bottom of the stairs when they see their children ready to be released. Could we kindly ask parents to avoid climbing the stairs towards the staff. If you need to speak to them, please let them know and they'll join you at the bottom of the stairs.*

**Maes Parcio** – Rydym yn parhau i glywed am barcio anystyriol a digwyddiadau amhleserus yn y maes parcio. Gofynnwn yn garedig i chi ond parcio yn y baeau cywir a bob amser roi blaenoriaeth i gerddwyr.

**Car Park** – *We continue to hear of inconsiderate parking and unsavoury incidents in and around the car park. We kindly ask you only to park in the dedicated bays and always give priority to pedestrians.*

## **Ethol Rhiant Lywodraethwyr / Election of Parent Governor**

Yn dilyn pleidlais ar gyfer ethol rhiant lywodraethwr, gallwn gadarnhau mai Mrs Emma Miles sydd wedi'i hethol. Diolch o galon i Mr Joseph a Mrs Barrington am eu parodrwydd i ymgymryd â'r rôl.

*Following the recent ballot for parent governor, we can confirm that Mrs Emma Miles has been elected. Many thanks to Mr Joseph and Mrs Barrington for being so prepared to stand for the role.*

## **Staff / Staff**



Dymunwn y gorau i Miss Mair Davies sydd wedi cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth yn ddiweddar. Miss Stephanie Davies fydd yn dysgu blynyddoedd 4 a 5 yn ystod mamolaeth Miss Davies.

*We send our best to Miss Mair Davies, who commenced her maternity leave recently. Miss Stephanie Davies will be teaching year 4 and 5 during Miss Davies's maternity*

Estynnwn groeso nôl hefyd i Miss Jeanette Burden sy'n dychwelyd o'i mamolaeth ym Mis Ionawr.

*We also warmly welcome back Miss Jeanette Burden from her maternity leave in January.*

## **Cofiwch / Remember**

Cofiwch fod Mrs Natalie Fairburn ar gael fel swyddog cyswllt teulu. Ei rôl yw cynnig cymorth cyfeillgar i rieni a disgyblion a delio ag unrhyw anawsterau neu ofidion sydd gan deuluoedd yn yr ysgol neu adref.

*Remember that Mrs Natalie Fairburn's position as a family liaison officer. Her role is be to offer friendly support to parents and pupils and deal with any difficulties or fears that families experience in school or at home.*



## **Gwasanaethau Dosbarth / Class Assemblies**

Bydd ein cyfres o wasanaethau dosbarth yn parhau'r tymor nesaf. Mae croeso mawr i rieni ymuno â ni i gydaddoli. Nodwch fod gwasanaeth dosbarth Mrs Richards wedi newid. Cadwch lygad ar ein cylchlythyron a safwe'r ysgol am ddyddiadau pellach yn ystod tymor yr Haf.

*Our program of class assemblies will continue next term. As always, we warmly invite parents to join us in worship. Please note that the date for Mrs Richards's class assembly has changed. Keep an eye on our newsletters and the school website for further dates during the summer term.*

Dydd Mawrth / *Tuesday* 29.01.19 - 9:00-9:30am – Dosbarth Miss Alice Davies (B3)

Dydd Mawrth / *Tuesday* 19.02.19 - 9:00-9:30am – Dosbarth Miss Mair Davies (B4&5)

Dydd Mawrth / *Tuesday* 19.03.19 - 9:00-9:30am – Dosbarth Mrs Richards (B3&4)

Dydd Mawrth / *Tuesday* 26.03.19 - 9:00-9:30am – Dosbarth Mrs Lewis Jones (B1)

## **Presenoldeb / Attendance**

Llongyfarchiadau - Roedd presenoldeb y tymor hyd at ddiwedd Tachwedd yn 96.22%. Diolch o galon i chi. Dyma'r lefel y disgwylir i ni gyrraedd erbyn hyn. Erfyniwn arnoch i osgoi gwyliau yn ystod tymhorau ysgol a'n helpu fel ysgol i gynnal lefelau presenoldeb uchel ar hyd y flwyddyn.

*Congratulations - Attendance for this term up until the end of November was 96.22%. This is the expected attendance levels that we are expected to meet. A big thank you to all of you. We appeal to you to try and avoid holidays during term time and support us as a school in maintaining high attendance levels throughout the year.*

## **HMS / INSET**

Mae'r diwrnodau ble mae HMS wedi'u cynllunio isod. Mae hwn yn gadael un diwrnod rhwng Ionawr a diwedd tymor yr Haf. Fe'ch hysbyswn o hwn mor gynted ag y bydd wedi ei benderfynu.

*The days where INSET has been planned are listed below. This leaves one day between January and July. As soon as this is arranged, we will advise you.*

Dydd Gwener, Chwefror 8<sup>fed</sup> / *Friday, February 8<sup>th</sup>*

Dydd Gwener, Gorffennaf 19<sup>eg</sup> / *Friday, July 19<sup>th</sup>*

Dydd Llun, Gorffennaf 22<sup>ain</sup> / *Monday, July 22<sup>nd</sup>*

## Clybiau Allgyrsiol / School Clubs

### Dydd Mawrth / Tuesday

Clwb Chwaraeon Cinio 5&6 / *Year 5&6 Lunchtime Sports Club (12:00 – 12:40)*

Clwb Chwaraeon Bl. 1 a 2 / *Y1 and Y2 Games Club (3:15 – 4:00pm)*

### Nos Fercher / Wednesday Night

Clwb Chwaraeon (Bl. 3 i 6) / *Games Club (Yrs 3 to 6)*

### Dydd Iau / Thursday

Clwb Chwaraeon Cinio 3&4 / *Year 3&4 Lunchtime Sports Club (12:00 – 12:40)*

Cynhelir **Adran y Barli** rhwng 3.15 - 4.15yp ar gyfer Bl3 i Fl 6. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y tymor megis rygbi, pêl droed, pêl rwyd, gweithdai celf a choginio, gemau bwrdd, bingo, drama, cyfeiriannu, codio a chwaraeon tîm. Y gost yw £1 yr wythnos a bydd angen bod yn aelod o'r Urdd.

*Adran y Barli meets 3.15 – 4.15pm for Yrs 3 – 6 pupils.*

*The menu of activities during the term includes netball, rugby, soccer, ball skills, art/cookery workshops, coding and bingo. The cost is £1 per week and pupils will need to be members of the Urdd.*

Clwb Codio 3&4 / *Year 3&4 Coding Club (3:15 – 4:15pm)*

Clwb Gwyddbwyll – Bron pob amser cinio / *Chess Club – most lunchtimes*

Clwb Darllen Blwyddyn 2 – Yn cychwyn amser cinio yn y flwyddyn newydd /

*Year 2 Reading Club – will commence lunchtimes in the new year.*

## Clybiau'r Urdd / Urdd Clubs

Fe fydd yr Urdd yn cynnal clwb chwaraeon hanner tymor Gwanwyn yn yr Ysgol. Pan dderbyniwn wybodaeth bendant, fe'i dosbarthwn.

*The Urdd will be running a sports club at the school over half term. When we receive confirmation, we will distribute it immediately.*

## Gwersi Offerynnol / Instrument Lessons

(Cyfraniad o £120 y flwyddyn / £3:15 yr wythnos / *Contribution of £120 a year / £3:15 a week*)

Dydd Llun / *Monday* – Telyn / *Harp* (Mr Llywelyn Jones ) a Prês / *Brass* (Mr Wayne Pedrick)

Dydd Iau / *Thursday* – Drymiau / *Drums* (Mr Lyn Rees)

Dydd Gwener / *Friday* - Llinynnol / *Strings* (Mrs Sharon Williams)

Cofiwch, fel rhan o'r ddarpariaeth, gellir benthg offerynnau am ddim. Mae ychydig o le yn parhau (yn enwedig ar gyfer gwersi llinynnol y gellir cynnig i ddisgyblion o flwyddyn 2). Os hoffai eich plentyn dderbyn gwersi, cysylltwch â ni.

*Remember, these lessons can also include a free loan of an instrument. Some lessons are still available (especially for strings which we can offer this from year 2). If you would like your child to receive lessons, please let us know.*

## Y Siarter Iaith / Welsh Language Charter

Mae'r ysgol yn gweithio tuag at wobr aur y Siarter Iaith. Prif nod y Siarter yw ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau fel eu bod yn ymwybodol o gyd-destun hanesyddol, diwylliannol, cymunedol ac ieithyddol Cymru.

Rydych chi, ein rhieni yn ganolog i hyn a gofynnwn i chi ein cefnogi yn y nôd yma. Gobeithiwn eich cynnwys fwyfwy yn ein gwaith tuag at weithredu'r Siarter ac wrth atgyfnerthu manteision dwyieithrwydd gyda'r disgyblion. Ar ôl y Nadolig, cadwch lygad ar flogiau'r dosbarth ar gyfer 'Thema Drafod yr Wythnos' i'w ymestyn adref. Yn bwysicach, allwch chi'n hysbysu os glywch eich plentyn yn siarad Cymraeg adref, yn y tŷ, wrth chwarae gydag eraill neu wrth gymdeithasu tu allan i'r ysgol fel ein bod yn gallu gwobrwyo'r disgyblion yma gyda phwyntiau Class DOJO neu dystysgrif yn y gwasanaeth.

*The school is working towards the gold award of the Language Charter. The main aim of the Charter is to inspire our children and young people to use the Welsh Language in all aspects of their lives and develop greater awareness of the historical, cultural, community and linguistic context of Wales. You, as parents are central to us achieving this aim. We hope to increasingly involve you in our work towards implementing the Charter and in reinforcing the benefits of bilingualism with the pupils. After Christmas, keep an eye on*

*the class blogs for the 'Discussion Topic of the Week' and continue to extend the discussion to the dinner table at home. More importantly, would you let us know if you hear your child speaking Welsh at home, in the house, when playing with others or socialising outside school so that we can reward these pupils with Class DOJO points or certificate in assembly.*

### **Hanner Can Mlwyddiant yr Ysgol / School Fifty Year Celebration**

Fe fyddwn yn cynnal nifer o weithgareddau dros y flwyddyn nesaf i ddathlu hanner can mlynedd fel ysgol benodedig Gymraeg. Rhan bwysig o'r dathliadau fydd casglu gwybodaeth am wahanol gyfnodau yn ei hanes. I'r perwyl hwnnw, fe fyddwn yn dechrau'r dathliadau gyda noson hel hanes anffurfiol yn yr ysgol ar nos Iau, Ebrill 11<sup>eg</sup>. Fe fydd croeso mawr i bawb. Dewch â hen luniau, dogfennau a hanesion gyda chi er mwyn i ni gael eu cofnodi a'u copïo - er mwyn i ni sicrhau fod yr wybodaeth ar gael i ddisgyblion a staff am yr hanner can mlynedd nesaf.

*Over the next year we will be holding a number of activities to celebrate fifty years as a Welsh Medium School. An important part of our half century activities will be to collect and carefully document its history. To that end, we will begin the celebrations with an informal history gathering event at school on Thursday evening, April 11<sup>th</sup>. Everyone will be very welcome. Bring with you old photographs, documents and any stories or anecdotes you may have so that they can be recorded and copied. In doing so, we can ensure that the information is available to pupils and staff for the next half century.*

Cofion Gorau / *Best Wishes*



Ceri Emanuel  
Pennaeth / *Headteacher*

**Ychydig o ddyddiadau ar gyfer tymhorau sydd i ddod ----->**  
***A few dates for the terms ahead***



## Ysgol Gymraeg Pontardawe

### Dyddiadur Gwanwyn 2019 / *Spring 2019 Diary*

Dydd Iau, Rhagfyr 20 <sup>fed</sup> <i>Thursday, December 20<sup>th</sup></i>	Disgo Ynni Da <i>High Energy (Language Charter) Disco</i>
<b>Nadolig</b> – Cau ar ddydd Gwener, Rhagfyr 21 <sup>ain</sup> ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ionawr 7 <sup>fed</sup> <i>Christmas</i> – School closes on Friday, December 21 <sup>st</sup> and will re-open on Monday, January 7 <sup>th</sup>	
Dydd Iau Ionawr 17 <sup>eg</sup> <i>Thursday January 17<sup>th</sup></i>	Gymnasteg yr Urdd <i>Urdd Gymnastics</i>
Dydd Mawrth Ionawr 29 <sup>ain</sup> <i>Tuesday January 29<sup>th</sup></i>	Gwasanaeth B3 Miss A Davies <i>Class Assembly Y3 Miss A Davies</i>
Dydd Gwener, Chwefror 8 <sup>fed</sup> <i>Friday, February 8<sup>th</sup></i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Gwener, Chwefror 15 <sup>fed</sup> <i>Friday, February 15<sup>th</sup></i>	B 3 a 4 – Jambori'r Urdd yn Ysgol Gyfun Ystalyfera <i>Y 3 &amp; 4 – Urdd Jamboree at Ysgol Gyfun Ystalyfera</i>
Dydd Mawrth Chwefror 19 <sup>eg</sup> <i>Tuesday February 19<sup>th</sup></i>	Gwasanaeth B4a5 Miss M Davies <i>Class Assembly Y4&amp;5 Miss M Davies</i>
Dydd Iau Chwefror 21 <sup>ain</sup> <i>Thursday February 21<sup>st</sup></i>	Lluniau Dosbarth (Gwisg Dydd Gŵyl Dewi) <i>Class Photographs (St David's Day clothing)</i>
<b>Hanner Tymor y Gwanwyn 25<sup>ain</sup> Chwefror – 1<sup>af</sup> Mawrth / <i>Spring Half Term 25<sup>th</sup> February – 1<sup>st</sup> March</i></b>	
Llun i Wener Mawrth 4 <sup>ydd</sup> i'r 8 <sup>fed</sup> <i>Monday to Friday March 4<sup>th</sup> to 8<sup>th</sup></i>	Bloc Nofio B5 <i>Y5 Swimming Block</i>
Dydd Gwener Mawrth 8 <sup>fed</sup> <i>Friday March 8<sup>th</sup></i>	Dathliadau Gŵyl Dewi ac Eisteddfod yr Ysgol <i>St David's Day Celebration and School Eisteddfod</i>
Llun i Wener Mawrth 11 <sup>eg</sup> i'r 15 <sup>fed</sup> <i>Monday to Friday March 11<sup>th</sup> to 15<sup>th</sup></i>	Bloc Nofio B6 <i>Y6 Swimming Block</i>
Dydd Mercher Mawrth 13 <sup>eg</sup> <i>Wednesday March 13<sup>th</sup></i>	Eisteddfod Gylch yn YGG Gwauncaegurwen <i>Area Eisteddfod at YGG Gwauncaegurwen</i>
Dydd Mawrth Mawrth 19 <sup>eg</sup> <i>Tuesday March 19<sup>th</sup></i>	Gwasanaeth B3a4 Mrs Richards <i>Class Assembly Y3&amp;4 Mrs Richards</i>
Dydd Mawrth, Mawrth 26 <sup>ain</sup> <i>Tuesday March 26<sup>th</sup></i>	Gwasanaeth B1 Mrs Lewis Jones <i>Class Assembly – Y1 Mrs Lewis Jones</i>
Dydd Sadwrn, Mawrth 30 <sup>ain</sup> <i>Saturday March 30<sup>th</sup></i>	Eisteddfod Sir yn Theatr y Dywysoges <i>Regional Eisteddfod at the Princess Royal Theatre</i>
Nos Iau, Ebrill 11 <sup>eg</sup> <i>Thursday Evening April 11<sup>th</sup></i>	Noson Hel Hanes YGG Pontardawe <i>YGG Pontardawe History Gathering Evening</i>
Gwener, Ebrill 12 <sup>fed</sup> <i>Friday April 12<sup>th</sup></i>	Twrnaint Rygbi'r Clwstwr <i>Cluster Rugby Tournament</i>
<b>Pasg</b> – Cau ar ddydd Gwener, Ebrill 12 <sup>fed</sup> ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 29 <sup>ain</sup> <i>Easter</i> – School closes on Friday, April 12 <sup>th</sup> and will re-open on Monday, April 29 <sup>th</sup>	
Dydd Gwener Mai 17 <sup>eg</sup> <i>Friday, May 17<sup>th</sup></i>	B4a5 - Diwrnod Sgiliau Chwaraeon Ysgol Gyfun Ystalyfera <i>Y4&amp;5 - Ysgol Gyfun Ystalyfera Sport Skills Day</i>
Dydd Iau Mai 23 <sup>ain</sup> <i>Thursday, May 23<sup>rd</sup></i>	Mabolgampau'r Ysgol <i>School Sports Day</i>
<b>Hanner Tymor y Sulgwyn 27<sup>ain</sup> – 31<sup>ain</sup> Mai / <i>Whitsun Half Term 27<sup>th</sup> – 31<sup>st</sup> May</i></b>	
Mercher i Wener Mehefin 5 <sup>ed</sup> i'r 7 <sup>fed</sup> 2019 <i>Wednesday to Friday June 5<sup>th</sup> to 7<sup>th</sup> 2019</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 5 â Llangrannog <i>Year 5 Residential Visit to Llangrannog</i>
Llun, i Wener Mehefin 3 <sup>ydd</sup> i'r 7 <sup>fed</sup> 2019 <i>Monday to Friday June 3<sup>th</sup> to 7<sup>th</sup> 2019</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 4 a Dan y Wenallt <i>Year 4 Residential Visit Danywenallt (2.5 days / pupil)</i>
Dydd Iau Mehefin 13 <sup>eg</sup> <i>Thursday, June 13<sup>th</sup></i>	B6 - Diwrnod Pontio Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur <i>Y6 – Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur Transition Day</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 5 <sup>ed</sup> <i>Friday, July 5<sup>th</sup></i>	Mabolgampau Clwstwr Ysgolion YG Ystalyfera <i>YG Ystalyfera Cluster Sports Day</i>
Dydd Iau, Gorffennaf 11 <sup>eg</sup> <i>Thursday, July 11<sup>th</sup></i>	Cyngerdd Gadael Blwyddyn 6 (1:30yp) <i>Year 6 Leaver's Concert (1:30pm)</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 12 <sup>fed</sup> <i>Friday, July 12<sup>th</sup></i>	Gig Siarter Iaith yn YG Ystalyfera Bro Dur <i>Language Charter Gig at YG Ystalyfera Bro Dur</i>

Dydd Gwener, Gorffennaf 19 <sup>eg</sup> <i>Friday, July 19<sup>th</sup></i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Llun, Gorffennaf 22 <sup>ain</sup> <i>Monday, July 22<sup>nd</sup></i>	HMS <i>INSET</i>
<b>Haf – Cau i ddisgyblion ar ddydd Iau, Gorffennaf 18<sup>fed</sup> ac yn ail agor i ddisgyblion ar ddydd Mawrth, Medi'r 3<sup>ydd</sup></b> <i>Summer – School closes for pupils on Thursday, July 18<sup>th</sup> and will re-open to pupils on Tuesday, September 3<sup>rd</sup></i>	